

Gwerthuso'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant



Rydyn ni'n cynnal cyfarfod ym Mhontypridd i drafod y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.



Rhan o'r gwaith o werthuso'r Ddeddf ydy'r cyfarfod.



Rydyn ni am i bobl ddweud wrthon ni am eu profiadau o ran gofal a chymorth.



Ddydd Llun, Mawrth 16, cynhelir 3 sesiwn a gallwch ddewis pa un bynnag yr hoffech ei fynychu:



Sesiwn 1: 1.00-2.45pm
Sesiwn 2: 3.15-5.00pm
Sesiwn 3: 5.30-7.15pm



Cynhelir y cyfarfod ar Gampws Glyntaf Isaf, Prifysgol De Cymru, Pontypridd.

Beth ydy Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014?



Mae'r Ddeddf yn ceisio:



Gwneud bywyd yn well i bobl a'u gofalwyr.



Gwneud deddfau gofal cymdeithasol yn haws i'w defnyddio.



Rhoi llais cryfach a rheolaeth gadarnach i bobl.



Sicrhau bod pobl yn cael yr help sydd ei angen arnyn nhw i fyw bywyd da.



Disgrifio sut wasanaethau cymdeithasol fydd ar gael drwy Cymru.



Datgan sut y bydd y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio gyda'r gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.



Sicrhau bod cymunedau yn cael y cyfle i gynnig eu gwybodaeth a'u profiad.



Cadw pobl yn ddiogel rhag cael eu camdrin a'u hesgeuluso.



Mae pum egwyddor yn y Ddeddf sydd yn sail i'r hyn mae'n ceisio'i wneud:



1. Atal



2. Llesiant



3. Llais a Rheolaeth




4. Cyd-gynhyrchu



5. Gwaith Aml-Asiantaethol

Gwerthuso'r Ddeddf



Gofynnodd Llywodraeth Cymru i'r Ddeddf gael ei gwerthuso i weld pa mor effeithiol ydy hi.



Mae hyn yn golygu bod academyddion a gweithwyr proffesiynol yn siarad â phobl i weld pa mor dda mae'r Ddeddf yn gweithio.



Yna, byddan nhw'n llunio adroddiad a fydd yn dangos pa mor dda mae'r Ddeddf wedi gweithio yng Nghymru.

Er mwyn neilltuo lle yn y cyfarfod, cysylltwch â:

Ceri Jenkins (Prifysgol De Cymru)

01443 483070 / ceri.jenkins@southwales.ac.uk

Am ragor o wybodaeth am yr astudiaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Yr Athro Mark Llewellyn

Prifysgol De Cymru

01443 483070 / mark.llewellyn@southwales.ac.uk